



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Gosodwyd OS yn San Steffan sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig sef Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) Cymru a Lloegr 2022 ("Rheoliadau 2022")

**DYDDIAD** 28 Tachwedd 2022

**Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd.**

**GAN**

Bydd Aelodau'r Senedd am fod yn ymwybodol bod cydsyniad yn cael ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn arfer pŵer i greu is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Yn 2019, cytunodd Gweinidogion ar draws y DU gyda'i gilydd i gyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) newydd ar gyfer deunydd pacio, a fydd yn disodli'r drefn bresennol. Gan nad yw'r dyddiad cychwyn arfaethedig ar gyfer y drefn EPR newydd tan 2024, mae angen gwelliannau i'r rheoliadau presennol er mwyn sicrhau bod targedau yn eu lle ar gyfer y cyfnod dros dro. Bydd y rheoliadau'n sicrhau bod y targedau presennol o ran cyfrifoldeb cynhyrchwyr am ddeunydd pacio yn cael eu trosglwyddo tan 2023, hyd nes bod y rheoliadau newydd o ran deunydd pacio yn dod i rym. Felly, gofynnwyd am gytundeb gan Victoria Prentis AS y Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd i wneud Offeryn Statudol (SI) dan y teitl Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2022 i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru a Lloegr.

Bydd yr OS uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer pwerau a roddir gan adran 50 o baragraffau 1(1) a 2(2) o Atodlen 4 i Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Mae'r OS yn diwygio Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd

Pacio) 2007 (OS 2007/871) sy'n gosod rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr deunydd pacio i ailgylchu gwastraff deunydd pacio i gyrraedd targedau ailgylchu cyffredinol a thargedau ailgylchu deunydd-benodol.

Roedd y Rheoliadau hyn yn gosod targed ailgylchu cyffredinol yn ogystal â thargedau ailgylchu deunydd-benodol ar gyfer 2023 ar gynhyrchwyr gorfodol yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â gwydr, plastig, alwminiwm, dur, papur/cardfwrdd, a phren yn ogystal â tharged aildoddi penodol ar gyfer gwydr.

Gosodwyd y rheoliadau gerbron y Senedd ar 23 Tachwedd 2022 i ddod i rym ar 1 Ionawr 2023.